

Jane Hutt AC / AM
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities & Tackling Poverty



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/JH/3548/14

Christine Chapman AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

10 Tachwedd 2014

Annwyl Christine,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref a amlinellodd amryw o faterion sy'n codi yn sgil y sesiwn dystiolaeth yr aethom ni iddi.

1. Gostyngiadau i'r Gyllideb

Gydol y broses o graffu ar y Gyllideb, rydym ni wedi bod yn agored ynglŷn â'r heriau sy'n ein hwynebu o ganlyniad i'r cyfnod hir o ostyngiadau parhaus a'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau yn erbyn y cefndir hwn. Mae prinder adnoddau a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau'n golygu nad oes modd i ni barhau i ariannu'r holl wasanaethau ar y lefel yr hoffem. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi yn rhaglenni heddiw i osgoi problemau i'r dyfodol. Dyna sydd i gyfrif bod ein ffocws ar fesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar wedi llywio ein holl agwedd at y Gyllideb. Mae gwariant ar iechyd yn hanfodol yn y cyd-destun hwn. Yn ogystal ag ymyriadau ataliol sy'n gallu cael effeithiau llesol yn syth, megis mesurau iechyd y cyhoedd, mae gwariant ar iechyd mewn meysydd eraill, megis gwasanaethau a ariennir gan y dyraniad craidd i BILlau i gefnogi cyflyrau iechyd difrifol, yn rhan bwysig o'n dull ataliol.

Ond mae'r dull hwn hefyd yn golygu buddsoddi i'r hirdymor a chymryd camau i helpu i gefnogi ein huchelgais o sicrhau ansawdd bywyd gwell i ni'n hunain ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae ein buddsoddiad yn y gwasanaeth iechyd yn cefnogi'r uchelgais hon yn llawn ac yn rhan ganolog o'n hymrwymiad i wella canlyniadau iechyd a lles hirdymor i bobl Cymru.

Wrth ddatblygu ein cynlluniau, mae pob Gweinidog wedi canolbwyntio ar reoli gostyngiadau mewn ffordd sy'n lleihau effaith gostyngiadau yn y tymor byr ac mewn ffordd sy'n parhau i'n helpu ni i gyflawni ein canlyniadau ar gyfer y tymor hwy. Er bod

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
recycled paper*

Printed on 100%

lefel y cyllid yn bwysig, mae hi hefyd yn bwysig i ni asesu sut y gallwn ni weithio mewn ffordd wahanol, a mwy cydweithredol, i gyflawni ein hamcanion. Roedd hon yn neges allweddol a bwysleisiwyd yn ystod Taith Cyllideb Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ac rydym wedi ymrwymo i helpu pob Gweinidog i weithio gyda'i bartneriaid cyflawni i barhau i symud tuag at ddulliau ataliol.

Mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y Rhaglen Cefnogi Pobl. Fel y nododd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, wrth ystyried effaith gostyngiadau i'r gyllideb hon, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos iawn gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a Bwrdd Cyngori Cenedlaethol y rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys rhannu ystod o ffigurau i gefnogi cynlluniau cynnar a phwysu a mesur y ffordd orau o fynd o'i chwmpas hi.

O ran unrhyw waith pellach i ystyried effaith gostyngiadau i'r gyllideb, mae'n bwysig cofio mai Awdurdodau Lleol ac aelodau eraill o'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol sy'n gyfrifol am ddsbarthu'r grant yn effeithiol gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i nodi anghenion a blaenoriaethau lleol. Er ein bod yn cydnabod bod pwysau'r gyllideb yn golygu y byddan nhw hefyd yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd, bydd cydweithredu effeithiol rhwng pob sefydliad a dull strategol o ddsbarthu'r gyllideb a rheoli gostyngiadau i'r gyllideb yn helpu i leihau'r effaith ar argaeledd y gwasanaethau.

Yn hyn o beth, nododd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn glir yn ystod ein sesiwn dystiolaeth y byddai'n parhau i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid i sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'r cyllid ac i leihau effaith gostyngiadau i'r gyllideb lle roedd y gostyngiadau hynny'n anochel. Fel y nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, byddwn yn ystyried effaith y Rhaglen Cefnogi Pobl ymhellach wrth i fwy o wybodaeth ddod i'r amlwg am sut mae gostyngiadau'n cael eu rheoli, gan gynnwys unrhyw arbedion effeithlonrwydd a sicheir i helpu i leihau effaith gostyngiadau. Byddwn yn hapus i rannu'r wybodaeth hon gyda'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

Rydym hefyd yn nodi'ch pryderon mewn perthynas ag effaith gostyngiadau i addysg ôl-16 a Gyrfa Cymru, yn enwedig yr effaith ar y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau nad yw ein penderfyniadau'n rhoi'r grwpiau hyn dan anfantais, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

Yn unol â hyn, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid cyflawni i weld ble a sut y gallwn ni leihau effaith y toriadau hyn, gan gynnwys effaith penderfyniadau ar y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Mewn rhai achosion, gall hyn gynnwys gwaith pellach i asesu effaith penderfyniadau. Er enghraifft, mae'n ofynnol i gyflogwyr a darparwyr ein rhaglen brentisiaeth lunio polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth a dangos trwy hunanasesiad a thystiolaeth ategol eu bod yn rhoi'r polisïau ar waith, yn monitro cyfranogiad ac yn cefnogi grwpiau gwarchoddedig. Bydd yr asesiadau hyn yn hollbwysig wrth reoli cyllidebau llai mewn ffordd sy'n diogelu grwpiau difreintiedig cyn belled ag y bo modd.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid i reoli gostyngiadau mewn ffordd sy'n cynnal gwasanaethau o safon uchel. Er enghraifft, mewn perthynas â Gyrfa Cymru, rydym yn canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael trwy ystyried mecanweithiau cyflawni newydd, megis defnyddio mwy o wasanaethau gwe-sgwrs, ffôn a gwe. Mae'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd â'r ffordd y mae pobl ifanc yn hoffi cael gafael ar wybodaeth. Mae gwasanaethau Gyrfa Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig at helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion polisi

ehangach, sef lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac er nad oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ar gylch gwaith Gyrfa Cymru ar gyfer 2015-16, rydym yn rhagweld y bydd y capasiti'n cael ei gynnal ar gyfer gwasanaethau a dargedir sy'n canolbwyntio ar y rhai sydd yn y perygl mwyaf o ymddieithrio.

2. Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA)

Gan droi at Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE), croesawyd y drafodaeth ddefnyddiol a gafwyd ar BAGE yn y sesiwn dystiolaeth ac rydym yn hapus i ddarparu mwy o eglurder a gwybodaeth mewn ymateb i'r materion yn eich llythyr.

Fel y trafodwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid sefydliad BAGE wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft 2013-14, er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gwella ei dull o asesu effaith y Gyllideb. Mae BAGE hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at wella'r dystiolaeth ar anghydraddoldebau yng Nghymru, sy'n helpu Llywodraeth Cymru i ystyried effaith ei phenderfyniadau mewn perthynas â gwariant. Rydym wedi amgáu Cylch Gorchwyl BAGE yn Atodiad 1.

Fel y gwelwch, cylch gwaith BAGE yw cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi weithio i wella'r ystyriaethau cydraddoldeb sy'n digwydd gydol y broses o bennu'r gyllideb, yn unol â'r nodweddion gwarchoddedig a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. I'r perwyl hwnnw, mae BAGE wedi helpu i lywio'r broses a ddefnyddiwn i ystyried effeithiau cydraddoldeb er mwyn helpu Gweinidogion i wneud penderfyniadau mewn ffordd wybodus. Yn hynny o beth, mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn darparu cofnod clir o effeithiau penderfyniadau allweddol y Llywodraeth. Fodd bynnag, nid cyhoeddi ein cynlluniau gwariant yw diwedd y broses hon ac, yng nghydestun asesiadau effaith, mae trafodaethau BAGE yn parhau i ddylanwadu a llywio ein dull o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau gydol y flwyddyn. Wrth gwrs, mae BAGE wedi gwneud cyfraniad pwysig at gyflwyno gwybodaeth ac at fformat yr Asesiad Effaith Integredig Strategol. Fodd bynnag, yn unol â'n hymrwymiad i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar dystiolaeth, ein ffocws ar y dull a ddefnyddiwn i ystyried cydraddoldeb gydol datblygiad ein cynigion cyllideb yw'r peth pwysicaf.

Yn ogystal ag ystyried agwedd Llywodraeth Cymru at asesu effaith a'r dystiolaeth ategol, dros y ddwy flynedd diwethaf, mae BAGE hefyd wedi ystyried amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys trafodaethau ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, goblygiadau Diwygio Lles a'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae canlyniad y trafodaethau hyn wedi'i raeardu yn ôl i Adrannau ar lefel swyddogol i lywio ystyriaethau Gweinidogion fel rhan o'r broses gyllidebu.

Yn unol â'ch cais, rydym hefyd wedi darparu yn Atodiad 2 gopi o gofnodion holl gyfarfodydd BAGE, gan gynnwys cofnodion y cyfarfod diweddaraf lle trafodwyd Cyllideb Ddrafft 2015-16 a'r SIIA.

Mewn perthynas â'ch awgrymiadau ar gyfer rôl BAGE i'r dyfodol, byddwn yn trafod ei Gylch Gorchwyl a'i rôl i'r dyfodol yn ei gyfarfod nesaf ym mis Ionawr. Bydd hyn yn gyfle i ystyried y pwyntiau hyn ymhellach.

Mae'r ymateb hwn wedi'i gopïo at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.



Jane Hutt AC / AM

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business



Lesley Griffiths AC / AM

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities & Tackling Poverty